

Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2013, bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013

Diweddarwyd yr arweiniad hwn ar 25 Mai 2018 er mwyn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

# Ymddygiad rhywiol a'ch dyletswydd i adrodd am gydweithwyr

1 Yn *Arfer meddygol da*,<sup>1</sup> rydym yn nodi:

- 25c Os oes gennych chi bryderon nad yw cydweithiwr yn addas i wneud gwaith meddyg efallai, ac y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl, rhaid i chi ofyn am gyngor gan gydweithiwr, eich corff amddiffyn neu ni. Os byddwch yn pryderu o hyd, rhaid i chi adrodd hyn, un unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle, gan wneud cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd.
- 53 Ni ddylech ddefnyddio eich sefyllfa broffesiynol i ganlyn perthynas rywiol neu emosiynol amhriodol gyda chlaf neu rywun sy'n agos iddynt.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y bydd modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestrriad.

3 Er mwyn cynnal ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd, ni ddylech fyth gyfleu awgrym rhywiol i glaf neu ddangos ymddygiad rhywiol. Nid yw ymddygiad rhywiol – er enghraifft, gwneud sylwadau rhywiol amhriodol – yn cynnwys cyffwrdd â'r claf o reidrwydd.

4 Os bydd claf yn dweud wrthy ch am sefyllfa lle y mae terfynau rhywiol wedi cael eu torri, neu os bydd gennych chi reswm arall dros gredu bod cydweithiwr<sup>2</sup> wedi, neu y gallai fod wedi, dangos ymddygiad rhywiol tuag at glaf, rhaid i chi adrodd eich pryderon<sup>3</sup> i berson neu sefydliad sy'n gallu ymchwilio i'r honiad yn ddi-oed. Os byddwch yn amau bod meddyg wedi cyflawni ymosodiad rhywiol neu weithgarwch troseddol arall, dylech sicrhau bod hyn yn cael ei adrodd i'r heddlu.

5 Rhaid i chi gynnig cymorth i unrhyw rai o'ch cleifion y byddant yn cael eu heffeithio gan y ffaith bod cydweithiwr wedi torri terfynau rhywiol.

- 6 Dylech barchu cyfrinachedd<sup>4</sup> cleifion wrth adrodd eich pryderon. Ond, rhaid rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch cleifion bob amser. Dylech geisio caniatâd y claf i ddatgelu gwybodaeth, oni bai ei bod yn amhriodol neu'n anymarferol gwneud hynny.<sup>5</sup> Os byddwch yn fodlon bod angen nodi manylion y claf, dylech geisio caniatâd y claf i ddatgelu'r wybodaeth, gan esbonio pam bod y datgeliad yn angenrheidiol. Os byddant yn gwrthod rhoi eu caniatâd i'r datgeliad ond rydych chi o'r farn bod y datgeliad er budd y cyhoedd, rhaid i chi hysbysu'r claf o'ch bwriad i ddatgelu'r wybodaeth. Ym mhob achos, dim ond gwybodaeth berthnasol y dylech ei datgelu.

## Ôl-nodion

---

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.
- 2 Unrhyw un y mae meddyg yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn feddygon hefyd neu beidio.
- 3 Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch.  
Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* Llundain, CMC.
- 4 Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch cyfrinachedd (paragraffau 63–70 ynghylch datgeliadau er mwyn diogelu cleifion ac eraill). Cyngor Meddygol Cyffredinol (2017) *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* Llundain, CMC.
- 5 Gweler paragraff 14 arweiniad *Cyfrinachedd* am enghreifftiau o adegau pan na fydd hyn yn wir efallai.